# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# POLISI RHEOLI RISG

# RHAGFYR 2022

## 1. Cefndir

Mae'n gyfrifoldeb ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i roi strategaeth a phroses rheoli risg ar waith.

Risg yw'r cyfuniad o debygolrwydd ac effaith digwyddiad neu weithred neu ddiffyg gweithredu a allai effeithio'n andwyol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i allu i ddarparu gwasanaethau'n llwyddiannus.

Mae rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethu corfforaethol da, ac mae'n nodi'r effaith ar y gwasanaethau a gyflenwir gan y Cyngor.

## 2. Datganiad Polisi Cyffredinol

Mae rheoli risg yn broses barhaus; nid yw'r broses yn fater o ddileu risg ond yn hytrach, deall risg a'i rheoli'n fwy effeithiol.

Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yw canfod, deall a rheoli'r risgiau sy'n rhan annatod o'n gwasanaethau, ac annog cymryd risgiau mewn modd cyfrifol a gwybodus.

Y manteision o gael Proses Rheoli Risg effeithiol yw gwella ein proses gwneud penderfyniadau, oherwydd gwneir penderfyniadau ar sail y ffeithiau llawn, gan bwyso a mesur manteision camau gweithredu penodol yn erbyn unrhyw risgiau a allai gael eu creu.

## 3. Amcanion y Polisi

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn anelu i …

Rheoli risgiau'n effeithiol, fel elfen allweddol o lywodraethu da a rheoli perfformiad trylwyr; a

Datblygu fframwaith ar gyfer rhoi'r polisi rheoli risg ar waith gan sicrhau bod y cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu.

Cydnabod y risgiau hirdymor a nodwyd gan y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC), tra bod y Cyngor yn gweithio i adnabod a monitro risgiau gweithredol tymor byr.

Bydd hyn yn cyflawni …


Proses o adnabod, dadansoddi, blaenoriaethu, gweithredu, monitro ac adrodd ar y risg:

Dealltwriaeth glir o'r rolau a'r cyfrifoldebau; a

Mwy o ymwybyddiaeth o'r risgiau uchaf y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

## 4. Fframwaith Corfforaethol

Mae rheoli risg mewn modd effeithiol yn rhan o gylch parhaus sy'n cael ei adlewyrchu yn y broses barhaus fel yr amlinellir yn y diagram isod.




Bydd y matrics '5 x 5' a ddangosir isod yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson ar waith. Pan ganfyddir risgiau, asesir y gweithgareddau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith i leihau'r risg.

| | Impact | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Likelihood | 1 Negligable | 2 Minor | 3 Significant | 4 Major | 5 Critical |
| 5 Certain | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| 4 Almost Certain | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| 3 Likely | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| 2 Possible | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| 1 Rare | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |

## Cyd-destun Corfforaethol

Dylid ystyried risg yng nghyd-destun yr amrywiol gynlluniau a rhwymedigaethau blaenoriaeth sydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae’r holl risgiau sydd wedi eu nodi yng Nghofrestr Risg y Cyngor bellach yn cael eu monitro bob chwarter gan y Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol. Mae’r Tîm Arweinyddiaeth yn canolbwyntio’n fanwl ar y risgiau hynny sy’n sgorio 15 ac uwch, er y bydd yr holl risgiau’n cael eu hadolygu.

Er bod risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau unigol yn cael eu nodi yng nghynlluniau pwrpasol y prosiectau, bydd risgiau sylweddol o fewn y prosiectau hefyd yn cael eu monitro trwy Gofrestr Risg y Cyngor.

## 6. Rolau a Chyfrifoldebau yn y Fframwaith Rheoli Risg

Isod, rhestrir y rolau a'r cyfrifoldebau y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn atebol amdanynt drwy'r fframwaith rheoli risg.

**Aelod Gweithredol Perthnasol…**

Sicrhau bod Polisi Rheoli Risg effeithiol ar waith a chymeradwyo unrhyw newidiadau i'r polisi.

**Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor …**

Adolygu a monitro Cofrestr Risg y Cyngor bob chwarter.

Penderfynu ar barodrwydd y Cyngor i dderbyn risg, a'i adolygu'n rheolaidd.

Canfod risgiau newydd ac effaith newidiadau i ddeddfwriaeth; cynghori aelodau etholedig ynghylch goblygiadau penderfyniadau ar reoli risg.

**Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol …**

Cefnogi Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor i ddatblygu a sicrhau proses a diwylliant rheoli risg sy'n effeithiol ac ystyrlon yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Strategol i ddatblygu, gweithredu a chynnal polisi rheoli risg ymarferol.

Rhoi systemau ar waith i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol wrth ddiffinio amcanion a llunio mesuriadau allbwn penodol.

Datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu prosesau i leihau risgiau.

Canfod y risgiau newydd a'r risgiau ychwanegol.

Cynnal Cofrestr Risg y Cyngor.

Adolygu'r holl risgiau o ran perthnasedd, cyflawnder a chysondeb.

Monitro'r camau sy'n cael eu gweithredu bob chwarter.

Monitro ac adrodd yn rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth, yr Aelod Gweithredol perthnasol, Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau, Busnes a Materion Trawsbynciol, y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet. A hynny o ran gweithgareddau'r Grŵp, ac effeithiolrwydd rheoli risg, fel elfen o Lywodraethu Corfforaethol mewn perthynas â Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

Adolygu polisïau a gweithdrefnau pan fo angen.

**Cyfarwyddwyr Strategol a Phenaethiaid Gwasanaethau …**

Canfod a dadansoddi risgiau.

Llunio cynlluniau rheoli risgiau a chyflwyno mesurau rheoli risg.

Monitro cynnydd y camau gweithredu a gynlluniwyd, a hynny bob chwarter, i sicrhau y cyflawnir y nodau.

Cyfleu'r broses rheoli risg i'r holl staff.

Monitro'r holl risgiau sy'n gyfrifoldeb ar eu Cyfarwyddiaeth a hynny'n barhaus, a sicrhau bod y camau i liniaru risgiau yn cael eu gweithredu'n llawn.

- Diweddaru Cofrestr Risg y Cyngor yn rheolaidd a chyfleu'r diweddaraf bob chwarter i'r Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol drwy'r daenlen monitro risgiau chwarterol i:
- Sicrhau bod y risgiau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn derbyn y sgôr priodol
- Cynnwys y diweddaraf, bob chwarter, ynghylch y gweithgareddau sydd wedi digwydd yn y chwarter blaenorol i liniaru'r risg, gan nodi a yw'r gweithgareddau hynny wedi effeithio ar y sgôr risg ac os na, pam, gan ddweud hefyd pryd mae'r mesurau lliniaru yn debygol o gael effaith ar y sgôr.

**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio …**

Ceisio sicrwydd bod risgiau'n cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol, a bod y polisi yn gweithio'n effeithiol.

**Gweithwyr ac Aelodau Etholedig …**

Rheoli risg yn effeithiol wrth gyflawni'u rolau a bod yn ymwybodol o oblygiadau'r risg ar unrhyw benderfyniadau a wneir.

## 7. Dogfennau Canllaw

Paratowyd y ddogfen ganllaw isod i alluogi swyddogion i ganfod a monitro risgiau yn gywir:

Canllaw i Ganfod a Rheoli Risgiau

## 8. Gwybodaeth Bellach

I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â Pholisi a Chanllawiau Rheoli Risg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, cysylltwch â;

Catherine Joseph - Uwch Swyddog Gwella a Chraffu Corfforaethol

Rhif ffôn: 01495 766038

E-bost: catherine.josephr@torfaen.gov.uk